“Peidiwch â thybio i mi ddod i ddileu’r Gyfraith na’r proffwydi; ni ddeuthum i ddileu ond i gyflawni.” **(Mathew 5:17)**

Dyma’r Arglwydd Iesu yn rhoi esiampl i ni o’r agwedd cywir at Air Duw.

Y Gyfraith

Mae’n trafod y Gyfraith a’r proffwydi, hynny yw, yr Hen Destament, sef Beibl yr Iddew. Y Gyfraith oedd y Pumllyfr, sef pum llyfr cyntaf y Beibl, a’r proffwydi oedd y gweddill. Gallem ddweud fod tair elfen i’r Gyfraith a roddwyd i Israel, sef:

Y Gyfraith foesol, gan gynnwys y Deg Gorchymyn a’r egwyddorion moesol sylfaenol a osodwyd am byth; dyma oedd yn dangos cyfiawnder Duw a’n hanghyfiawnder ni.

Y Gyfraith seremonïol, gyda’r aberthau a’r defodau oedd yn berthnasol i’w haddoliad. Roedd hyn yn dangos ffordd maddeuant a chymod â Duw, a bod angen gwrthsefyll ac ynysu aflendid.

Y Gyfraith farnol, oedd yn gosod manylion ynglŷn ag ymddygiad pobl Israel at ei gilydd a bywyd bob dydd. Dyma’r math o Gyfraith sydd yn cael ei gweithredu mewn Theocratiaeth, fel sy’n cael ei harfer mewn rhai gwledydd Mwslemaidd heddiw gyda’u Cyfraith Sharia.

Y proffwydi

Gwelwn waith y proffwydi yn cyhoeddi neges Duw i’w bobl a mynegi’r dyfodol. Roedd eu neges yn cynnwys apêl am edifeirwch a rhybudd o gosb. Roedd y Gyfraith yn cael ei defnyddio fel safon i ddangos eu pechod. Nid digon oedd cadw gwyliau ac addoliad allanol, heb geisio Duw yn y galon, a thynnir sylw at ddiffygion eu buchedd bob dydd. Er fod Duw yn aml yn cosbi ei bobl, ceir rhagolwg o ddyddiau gwell a ddaw gyda’r Meseia. Sonnir am ei ddioddefaint a’i frenhiniaeth a’i fuddugoliaeth dros ei elynion.

Gair Duw

O ddarllen geiriau Iesu’n gyffredinol, mae’n rhyfedd gymaint mae’n dyfynnu’r Hen Destament. Nid ei ddirymu na’i anwybyddu oedd ei fwriad, ond ei gyflawni. Onid ef oedd y gwir broffwyd? (Deut 18:15). Dyma ***yr*** archoffeiriad tosturiol a ffyddlon (Heb. 2:17). Dyma’r brenin tragwyddol. (Dat. 17:14) Mae’n amlwg bod Beibl yr Iddew yn anghyflawn heb ddyfodiad y Meseia addawedig.

Mae’r apostolion hwythau yn dangos bod Efengyl Crist yn cyflawni’r Hen Destament. Dehonglodd Pedr ddigwyddiadau Dydd y Pentecost fel

cyflawniad o broffwydoliaeth Duw trwy Joel. Ac eglurodd Paul nad oedd ei athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd yn newydd sbon. Roedd wedi ei gwreiddio yn nysgeidiaeth Duw yn yr Hen Air, cyn Cyfraith Moses hyd yn oed (Rhuf. 4:1-12).

Torri ynteu cyflawni

Rhan o'r rheswm am eiriau Iesu oedd ei fod yn cael ei gyhuddo'n gyson o dorri'r Gyfraith gan y Phariseaid a'r ysgrifenyddion. Cafodd ei gyhuddo droeon o dorri'r Saboth, er enghraifft.

Ond yr hyn oedd yn bwysig i'r arweinwyr crefyddol oedd nid ewyllys Duw ar gyfer dyn ar y Saboth, ond cadw'r llu o reolau ychwanegol oedd yng Nghyfraith yr ysgrifenyddion a roddwyd ar bapur yn ddiweddarach yn y 'Mishnah.' Er enghraifft, roeddent yn manylu ar ystyr 'cario baich' ar y Saboth, trwy ddweud fod rhaid peidio â chario bwyd oedd yn pwyso mwy na ffigys sych; dim mwy na chwpanaid o win; dim mwy nag un cegaid o laeth; dim mwy na digon o inc i ysgrifennu dwy lythyren o'r wyddor, ac yn y blaen. Trwy hyn, yr oedd Cyfraith Duw yn cael ei chuddio, nid ei hegluro, mewn gwirionedd. Er fod Crist yn torri eu rheolau dynol nhw yn aml, doedd a wnelo hynny ddim â gwir Gyfraith Duw.

Crist yn cyflawni

Wrth ddysgu ac esbonio'r Deg Gorchymyn, roedd Iesu'n cadarnhau cyfiawnder Duw. Yn ei fywyd rhoes ufudd-dod llwyr i'r gorchmynion. Safodd yn erbyn diafol yn y temtiad gan wrthod torri deddf Duw. Cafodd ei demtio i feddwl mwy am ei hunan nag am Air Duw. Fe'i temtiwyd i roi Duw ar ei brawf ac i addoli Satan.

Roedd Crist yn cadarnhau'r angen am aberth dros bechod wrth ei roi ei hun yn aberth dros bechodau'r byd fel 'Oen Duw.' Roedd ei aberth 'un waith am byth' yn cyflawni aberthau'r anfeiliaid. Dramâu bach o aberth fawr Calfaria oedd aberthau'r Hen Destament, ac felly mae eu pwrpas wedi ei gyflawni.

O ran y defodau seremonïol, mae aberth y groes wedi sicrhau 'golchiad yr ail-enedigaeth' sydd yn golygu bod Cyfraith Duw ar lech calon y gwir Gristion, a'i fod yn brwydro yn erbyn pechod yn ei natur newydd.

O ran y Gyfraith farnol, daeth y theocratiaeth i ben pan gymerwyd teyrnas Dduw oddi wrth Israel (Math. 21:43), ond dangosodd a dysgodd Iesu y dylem ufuddhau i awdurdodau sifil, fel y gwnaeth yr apostolion, oni bai bod hynny yn galw arnynt i wadu Crist.

Diolch fod Duw'n cyflawni pob addewid. Diolch y bydd Iesu'n cyflawni pob proffwydoliaeth Meseianaidd.